

Trugaredd

Darlleniad: Salm 103

Ein Tad nefol, erfyniwn am dy arweiniad yn ystod y munudau hyn a ninnau'n ceisio dy wyneb mewn gweddi. Munudau arbennig ydynt, oherwydd wrth inni nesáu at dy orsedd gwnawn hynny â chalonnau diolchgar i ti am dy drugaredd tuag atom. Mae'r emynydd am ein hatgoffa:

‘Mae munud yn dy gwmni
Yn newid gwerth y byd’

Os wyt ti am inni brofi'r munud hwn yn awr, O! Dad, yng nghanol munudau nesaf ein gweddi, boed iddo ddwyn inni brofiad adnewyddol ohonot ti. Diolchwn mai Duw trugarog a graslon ydwyf, yn araf i ddigio ac yn llawn ffyddlondeb. Daw hynny â chysur a llawenydd inni, ein Tad, yn wyneb ein hanffyddlondeb ni tuag atat. Dymunwn brofi dy drugaredd o'r newydd fel y medrwn dy ogoneddu mewn diolchgarwch, oherwydd ni wnaethost â ni yn ôl ein pechodau, ni thelaist i ni yn ôl ein troseddau, ond ceraist ni â chariad perffaith gan bellhau ein pechodau oddi wrthym. Diolchwn i ti am dy ffyddlondeb i'th blant, ffyddlondeb sydd ‘o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb’ i'r rhai sy'n dy foli. O! Dad, deisyfwn dy drugaredd i'n galluogi i'th wasanaethu o'r newydd a cheisio dy deyrnas mewn gwirionedd.

Yn bennaf, ein Tad, diolchwn i ti am dy drugaredd tuag atom yn Iesu Grist, ein Gwardwr. Diolch i ti am iddo ddod i'n byd ‘dros ein pechod ni, a hefyd bechodau'r holl fyd’. Ni ryfeddwn i'r Gair ddweud wrthym:

‘Yn hyn y mae cariad: nid ein bod ni'n caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau.’

Dymunwn brofi'r cariad hwn yn ein bywydau o'r newydd wrth inni

gydnabod dy drugaredd tuag atom:

‘Pwy sydd Dduw fel ti, yn maddau anwiredd, ac yn mynd heibio i drosedd gweddill ei etifeddiaeth? Nid yw’n dal dig am byth, ond ymhyfrydu mewn trugaredd. Bydd yn dosturiol wrthym eto, golch ein hanwireddau, a thafla ein holl bechodau i eigion y môr.’

Mor fawr wyt ti, O! Dduw. Canmolwn ninnau dy enw am byth. Gwelaist yn dda ein galw atat, ar sail dy drugaredd, i brofi o’r newydd dy bresenoldeb yn ein bywyd. Diolch am gwmni’r Ysbryd Glân yn ein cynorthwyo i’n hoffrymu ein hunain ‘yn aberth byw, sanctaidd a derbyniol’ i ti, a thrwy hynny addoli dy enw sanctaidd. Gelwaist ni i fyw fel plant y deyrnas, i lawenhau mewn gobaith, i sefyll yn gadarn dan orthrymder, i weddio’n ddi-baid, i lawenhau gyda’r rhai sy’n llawenhau, ac i fendithio’r rhai sydd am ein herlid, heb eu melltithio o gwbl - er mor wahanol yw hynny i’r ymateb sy’n codi o’r natur lygredig sydd ynom. Ond na, credwn i ti ein galw yn dy drugaredd i fyw bywyd sanctaidd, bywyd sy’n deilwng ohonot, gan fyw mewn cariad, yn union fel y carodd Crist ni, a’i roi ei hun trosom, yn offrwm ac aberth i Dduw, yn arogl pêr.

Boed i arogl Iesu Grist yr Arglwydd aros arnom fel y byddwn oll yn blant i ti ac yn barod i ddwyn gogoniant i’th enw glân a sanctaidd. Hyn a ofynnwn yn enw Iesu Grist. Amen.

Geraint Hughes